
# Gweledigaeth Cig Coch i Gymru



Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r corff sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch o Gymru.



Rhagfyr 2022

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Cadeirydd | 2 |
| Cyflwyniad i'r Weledigaeth | 4 |
| Ciplun o Sector Cig Coch Cymru | 5 |
| Rhagolygon - Cig Coch Cymru mewn Marchnad Fyd-eang | 6 |
| Gweledigaeth HCC | 7 |
| Gweithredu | 12 |


www.hybucig.cymru





# Dyfodol arloesol a llewyrchus

Gweledigaeth HCC ar gyfer diwydiant cig coch Cymru yw dyfodol arloesol a llewyrchus sy'n darparu ar gyfer talwyr ardoll, defnyddwyr a'r gymdeithas ehangach.

Cafodd y ddogfen Weledigaeth hon ei chreu gan Fwrdd HCC er mwyn amlinellu'r blaenoriaethau, cyfleoedd a heriau allweddol ar gyfer ein diwydiant yn ystod y blynyddoedd nesaf. Bydd yn lasbrint i'n sefydliad o ran cefnogi ac uno holl elfennau ein sector a'n cadwyn gyflenwi fel bod ein diwydiant yn llwyddo mewn byd a marchnad sy'n newid drwy'r amser yn y cyfnod ar ôl Brexit.

Mae'r sector bwyd a ffermio yng Nghymru yn rhan annatod o economi a diwylliant Cymru. Felly, mae'n rhaid i HCC osod sector cig coch Cymru a'r gadwyn gyflenwi mewn sefyllfa lle gall ymateb i heriau megis diogelwch bwyd a newid yn yr hinsawdd yn ogystal â chynnal ac adeiladu ei fomentwm yn y farchnad genedlaethol a byd-eang.

Mae bod yn gynaliadwy, pwysleisio rhagoriaeth y cynnyrch a masnachu'n llwyddiannus wrth wraidd y Weledigaeth hon wrth i ni barhau i lunio rhagolygon uchelgeisiol a blaengar ar gyfer Cymru fel gwlad sy'n arwain y byd o ran cynhyrchu cig coch.

Bydd HCC yn chwarae ei ran wrth ddilyn y naw blaenoriaeth a ganlyn:

1. Gosod cig coch o Gymru yn gynnyrch premiwm.
2. Datblygu cyfleoedd masnachu yn yr UE ar gyfer cig coch Cymru.
3. Sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o cig coch o Gymru ym Mhrydain.
4. Chwilio am ddefnyddwyr newydd ar gyfer cig coch Cymru yn fyd-eang mewn marchnadoedd sy'n bodoli.
5. Cael hyd i gyfleoedd i farchnata cig coch Cymru y tu allan i'r UE.
6. Gwneud diwydiant cig coch Cymru yn fwy cystadleuol.
7. Cefnogi'r economi, yr amgylchedd naturiol a chymdeithas trwy fod yn gynaliadwy wrth gynhyrchu a phrosesu cig coch yng Nghymru.
8. Cynllunio ar gyfer masnachu, cynhyrchu a phrosesu yn y dyfodol trwy sganio'r gorwel a chael gwybodaeth am y farchnad.
9. Arddangos arweinyddiaeth a chyfathrebu effeithiol i sicrhau pwrpas ac anogaeth rhagweithiol.

**Catherine Smith**
Cadeirydd HCC



# Cyflwyniad i'r Weledigaeth

## HCC

Sefydlwyd Hybu Cig Cymru (HCC) yn 2003 i fod yn gorff sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch o Gymru mewn ffordd strategol. Mae HCC yn gweithio mewn partneriaethau dynamig a rhagweithiol â ffermwyr, marchnadoedd da byw, proseswyr, mân-werthwyr, cyrff y diwydiant a chyrff y llywodraeth er mwyn hybu cynnyrch, proffidioldeb a chynaliadwyedd.

## Diwydiant Cig Coch Cymru

Mae'r diwydiant cig coch o bwys enfawr i Gymru. Mae'n gonglfaen i gymunedau, diwylliant a chefn gwlad sy'n denu tua miliwn o ymwelwyr o dramor bob blwyddyn.

O ran niferoedd, mae cynhyrchiant cig coch yng Nghymru yn werth tua £652 miliwn[1] yn flynyddol ac mae'n cynnal gweithlu amaethyddol o 50,400 yn uniongyrchol[2].

Mae'r gonglfaen hon i economi Cymru ar seiliau brandiau premiwm gwarchodedig Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymreig ac mae wedi helpu HCC i ddatblygu a thyfu.

## Gweithio trwy Bartneriaeth

Mae HCC a phroseswyr cig coch Cymru yn ymdrechu ar y cyd i roi hwb i werthiannau Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru PGI (Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig); a phorc o Gymru; a gynhyrchir ag arbenigedd gan ffermwyr da byw Cymru.

Mae partneriaeth yn hollbwysig o ran cyflawni a bydd llwyddiant y diwydiant hwn yn y dyfodol yn siŵr o ddibynnu ar gydweithio agos rhwng llywodraethau, HCC a holl randdeiliaid y diwydiant.

## Gweledigaeth

Mae'r Weledigaeth yn nodi'r cyfeiriad strategol i HCC, er mwyn gweithio tuag at ddiwydiant proffidiol, effeithlon, cynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy'n ymdopi gyda newidiadau gwleidyddol ac amgylcheddol ac sydd o fudd i bobl Cymru.

## Fframwaith ar gyfer y Dyfodol

Mae Bwrdd HCC yn cynnwys aelodau o'r diwydiant ac aelodau annibynnol a benodwyd gan Weinidogion Cymru Maent yn cyfeirio gweithgareddau statudol penodedig HCC o incwm a ddaw o Ardoll Cig Coch Cymru ar ddefaid, gwartheg cig eidion a moch.

Mae Bwrdd HCC yn cydnabod bod nifer o risgiau strategol yn wynebu'r diwydiant ond mae cyfleoedd newydd hefyd.

Yn dilyn Brexit a phandemig Covid-19, mae'r sector wedi wynebu ansicrwydd a heriau, yn sgil bargeinion masnach newydd a newidiadau mewn taliadau amaeth. Mae'r sector cig coch hefyd nawr yn wynebu heriau o ran twf chwyddiant."

Fodd bynnag, mae elfennau dibynadwy a chadarn yn perthyn i ddiwydiant cig coch Cymru. Mae ffermwyr Cymru'n dal i gynhyrchu cig oen, cig eidion a phorc sy'n ddiguro, ac ni fydd hyn yn newid waeth pa mor gystadleuol yw'r farchnad.

[1]***Ffynhonnell****: / Llywodraeth Cymru. Amaeth yn y Deyrnas Gyfunol, 2020.*
[2]***Ffynhonnell****: Llywodraeth Cymru, Arolwg Amaeth a Garddwriaeth, Mehefin 2021.*

# Ciplun o Sector Cig Coch Cymru

## Ystadegau

Mae gan Gymru 14,100 o ddaliadau defaid (4.5 miliwn o famogiaid bridio); 7,043 o ddaliadau gwartheg cig eidion (162,000 o wartheg cig eidion) a 1,339 o ddaliadau moch (3,000 o foch bridio).

Amcangyfrifir bod gwerth cynhyrchiant cig coch Cymru yn £652 miliwn[3].

Mae 18 o ladd-dai gweithredol yng Nghymru ac mae'r diwydiant lladd yng Nghymru yn cyfrannu tua £460 miliwn y flwyddyn i economi Cymru.




**Daliadau defaid**
**14,100**




**Daliadau gwartheg cig eidion**
**7,043**




**Daliadau moch**
**1,339**

## Systemau

Systemau porfwyd a ddefnyddir yn bennaf yng Nghymru i gynhyrchu da byw.

## Manteision Ôl-gynhyrchu

Mae cynhyrchu cig coch yn cefnogi economi wledig Cymru; yn helpu i gynnal adnoddau naturiol Cymru; yn cadw'r dirwedd a'r amgylchedd ac yn cefnogi ac yn ategu'r diwydiannau bwyd a thwristiaeth sy'n dibynnu ar harddwch naturiol tirwedd Cymru. Brandiau cig coch y wlad yw ei hallforion bwyd mwyaf adnabyddus, wrth weithredu fel arwyddluniau o ragoriaeth Cymru mewn dwsinau o wledydd.

## Defnyddio Cig

Mae Cymru'n ddibynnol iawn ar farchnadoedd cartref (yn enwedig Lloegr) a marchnadoedd allforio byd-eang, am mai dim ond pump y cant o'r cig coch a gynhyrchir yng Nghymru sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru.

## Allforion

Caiff 35 y cant o'r cig oen a 15 y cant o'r cig eidion a gynhyrchir yng Nghymru ei allforio. Mae hyn yn cyfateb i 24,200 tunnell fetrig o gig defaid a 14,400 tunnell o gig eidion. Ynghyd ag allforion crwyn ac offal, mae'r allforion hyn yn werth tua £210 miliwn y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae tua naw o bob deg o'r allforion yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd.

Mae yna gydberthynas gref iawn rhwng allforion cig coch Cymru a'r prisiau y mae'r ffermwr yn eu derbyn.

## Cydbwysedd Carcasau

Mae marchnadoedd tramor yn hanfodol hefyd o ran cael cydbwysedd effeithiol ar gyfer carcasau trwy chwilio am farchnadoedd gwerth-uchel ar gyfer toriadau ac offal gwerth-isel. Gall hyn ddod â gwell enillion i'r diwydiant yng Nghymru am nad oes i'r toriadau hyn fawr o werth ar y farchnad gartref.

## Mynediad i Farchnadoedd

Mae HCC yn gwneud ymchwil i flaenoriaethu marchnadoedd posibl ar gyfer cig coch Cymru, a thrwy weithio gyda DEFRA, Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Ardystiad Allforio y DG (UKECP) er mwyn sicrhau mynediad i'r farchnad mewn llawer o wledydd pwysig.

Casgliad: Mae strwythur diwydiant cig coch Cymru a'r galw tebygol gan ddefnyddwyr am gig coch yn y dyfodol yn golygu ei bod yn gwneud synnwyr strategol i fuddsoddi mewn allforion sy'n cynyddu ac, ar yr un pryd, yn gwneud y defnydd gorau o farchnadoedd mewnwladol.

[3]**Ffynhonnell**: *Llywodraeth Cymru. Amaeth yn y Deyrnas Gyfunol, 2020.*



# Rhagolygon - Cig Coch Cymru mewn Marchnad Fyd-eang

## Y Galw

Mae'r rhagolygon ar gyfer y defnydd o gig yn fyd-eang yn awgrymu y gallai allforio mwy o gig coch Cymru fod yn bwysicach fyth i'n strategaeth hirdymor ar gyfer y diwydiant.

Mae'r galw byd-eang am gig yn cynyddu, am fod y boblogaeth ac incwm gwario yn cynyddu, ond mae cyflymder y twf yn amrywio o fewn gwledydd â gwahanol raddau o ddatblygu.

Mae gan economïau a ddatblygwyd dwf araf neu negyddol, ac mae gan y defnyddwyr fwy o ddiddordeb mewn cynhyrchion cig coch sy'n adlewyrchu lles anifeiliaid, iechyd ac ansawdd. Mae yna alw cynyddol am gynhyrchion premiwm sy'n cynnig gwell ansawdd ac olrheinedd yn yr holl farchnadoedd, gan gynnwys Asia lle mae'r boblogaeth ddosbarth canol ar gynnydd.

Mae'r twf ehangach o ran defnyddio cig yn ffafrio cig dofednod a phroteinau nad ydynt yn gig am eu bod yn rhatach.

Mae cig defaid a chig eidion yn dal i fod yn gigoedd drud yn yr holl farchnadoedd, ond mae ganddynt gefnogaeth draddodiadol dda mewn sawl marchnad.

Mae'r sector cig coch yn wynebu pwysau cynyddol o ran yr hyn y mae defnyddwyr am ei gael – o'r chwiw ddiweddaraf, mwy o hyblygrwydd a phrydau bwyd cyflym a hawdd.

Am ei bod yn well gan ddefnyddwyr ym Mhrydain gael coesau cig oen, mae'n hanfodol bod y toriadau eraill yn cael eu hallforio er mwyn cael cydbwysedd o ran y carcasau.

Os oes amharu ar y fasnach ddi-dariff (llai o'r cynnyrch yn cael ei allforio), gall olygu gorgyflenwad yn y farchnad gartref a phroblemau o ran cydbwysedd carcasau.



## Cynhyrchu ar gyfer y Farchnad

Mae'r marchnadoedd allforio a chartref (Prydain) yn dibynnu ar allu'r sector i ymateb i negesau'r farchnad ac i fod yn ddigon cystadleuol i sicrhau cyflenwad o gig coch o ansawdd.

Mae cost cynhyrchu cig coch Cymru'n gymharol uchel a rhaid manteisio ar gyfleoedd i wella proffidioldeb a chadernid trwy fod yn fwy effeithlon ar draws y gadwyn gyflenwi.

Hefyd, mae angen cydweithredu a chydweithio ar draws y gadwyn gyflenwi i fanteisio ar arloesedd, gwybodaeth am y farchnad a marchnata effeithiol.

Casgliad: Mae angen cymorth ar ddiwydiant cig coch Cymru er mwyn addasu a chystadlu i wasanaethu sectorau o'r marchnadoedd datblygedig sy'n tyfu, yn ogystal â chwilio am gyfleoedd mewn marchnadoedd allforio newydd lle mae'r patrymau galw yn dangos tueddiadau mwy ffafriol ar gyfer cynhyrchion premiwm a phumed chwarter.

# Gweledigaeth HCC

Y gweledigaeth strategol yw diwydiant sy'n broffidiol, effeithlon, cynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy'n ymdopi gyda newidiadau gwleidyddol ac amgylcheddol ac sydd o fudd i bobl Cymru.

Rhaid i'r strategaeth i gyflawni'r weledigaeth hon alluogi HCC i ddefnyddio arian Ardoll Cig Coch Cymru mewn modd cynaliadwy er mwyn cynnal y twf mewn marchnadoedd allforio premiwm, agor marchnadoedd nad ydynt yn hygyrch ar hyn o bryd, a datblygu marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg - ynghyd ag adeiladu ar farchnadoedd datblygedig.



Fodd bynnag, rhaid i ni ddeall ac adlewyrchu'r ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth HCC (cyfraddau cyfnewid a mynediad i'r farchnad, yn benodol) a'r ffactorau hynny y gellir dylanwadu arnynt oddi mewn i ffiniau cylch gwaith statudol HCC.

Mae hefyd yn bwysig deall fod angen llawer iawn o amser i wneud cynnydd mewn rhai meysydd, a gallai hyn gymryd sawl blwyddyn.

Isod, nodir strategaeth Bwrdd HCC er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon.

## 1. Gosod cig coch o Gymru fel cynnyrch premiwm

Ni all hyn ddigwydd onid yw'r cynnyrch o ansawdd uchel.[4] Enghreifftiau gwych o gynnyrch premiwm nodedig yw Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru.

Mae Bwrdd HCC yn credu taw trwy gyfrwng cynnyrch premiwm, yn hytrach na masgynhyrchu lle daw'r elw o raddfa'r gwerthiant, y gall y diwydiant ychwanegu gwerth at gynhyrchion cig coch o Gymru. Bydd cyflwyno cynnyrch premiwm yn effeithiol yn golygu'r enillion gorau posibl i gadwyn gyflenwi cig coch Cymru. Er na allwn gystadlu o ran pris oherwydd costau cynhyrchu uwch, gallwn gystadlu o ran ansawdd a chyflwyno cynnyrch arbennig ac unigryw.

Bydd enillion o'r marchnadoedd cartref a byd-eang yn dibynnu ar fod yn effeithiol wrth farchnata Cig Oen Cymru, Cig Eidion Cymru a phorc o Gymru fel cynnyrch premiwm a gallu gwahaniaethu a hyrwyddo cynhyrchion wedi eu brandio. Mae angen i'r buddsoddi, er mwyn datblygu brandiau cig coch Cymru yn fasnachol, ymateb i'r hyn y mae'r defnyddiwr modern yn dymuno ei gael. Hyd yma, mae buddsoddiad hyderus ym mrandiau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI, dan arweiniad HCC, wedi golygu twf sylweddol mewn prisiau premiwm yn ogystal â chreu cyfleoedd marchnata newydd.

Mae systemau cadarn ar gyfer tarddiad ac olrheinedd gallu wedi bod yn elfen allweddol wrth sicrhau masnach mewn llawer o farchnadoedd sy'n bodoli. Mae'r dynodiad PGI dan warchodaeth gyfreithiol yn y DG, yn Ewrop ac mewn rhai gwledydd sydd â deddfwriaeth gyfatebol, a chaiff ei gydnabod yn farc o ansawdd gan y diwydiant bwyd byd-eang. Bu'r statws hwn yn allweddol wrth sicrhau busnes newydd sylweddol i'r brandiau Cymreig mewn siopau a mannau bwyd uwchraddol. Mae cynhyrchion premiwm PGI



[4]*Mae statws premiwm yn digwydd pan fo cwsmeriaid yn barod i dalu mwy am gynnyrch sydd o ansawdd uwch. Mae'n nodi gwahaniaeth, ond am bris y gellir ei fforddio.*



yn allweddol i fasnach allforio Cymru ac maent yn helpu i gynyddu gwerth manwerth toriadau penodol sydd, yn eu tro, yn helpu i gydbwyso gwerth y carcas cyfan.

Bydd mynediad i farchnadoedd arbenigol sy'n defnyddio'r toriadau isaf eu gwerth ac offal, ynghyd â datblygu cynnyrch is-sector newydd, yn allweddol o ran sicrhau cydbwysedd carcasau. Rhagwelir hefyd y bydd cyfleoedd i'r sector porc yng Nghymru mewn marchnadoedd arbenigol.

Bydd mesuriadau gwrthrychol o ffactorau sy'n dylanwadu ar arferion prynu defnyddwyr, megis ansawdd bwyta, iechyd a lles a chymwysterau gwyrdd cig coch o Gymru, yn helpu i gael cynnyrch mwy cyson yn ogystal â pheri i'r defnyddiwr fod â meddwl uwch o'r cynnyrch.

Bydd HCC yn diogelu tarddiad cig coch Cymru ac yn sicrhau statws PGI. Bydd HCC yn manteisio'n llawn ar agweddau arbenigol gwerth-uchel y marchnadoedd cartref a thramor. Bydd yn gwneud tarddiad yn fwy hysbys i farchnadoedd allweddol trwy geisio nodi a chymhwyso nodweddion ychwanegol ar gyfer cig coch o Gymru yn seiliedig ar ffactorau fel ansawdd bwyta'r cig a chymwysterau amgylcheddol.

## 2. Datblygu cyfleoedd masnachu yn yr UE ar gyfer cig coch Cymru

Mae'n hanfodol yn y tymor byr i gadw hyder a pherthynas â chwsmeriaid yn yr UE sy'n agos yn ddaearyddol, ac i ddatblygu perthynas ac ehangu cyfleoedd masnachu ym marchnadoedd premiwm yr UE sy'n datblygu.

Bydd HCC yn adeiladu ar y gwaith a wneir trwy raglenni hyrwyddo'r UE a bydd yn gweithio mewn gwledydd allweddol i sicrhau masnach â'n cymdogion agosaf ac i sicrhau a chynyddu masnach lle bo modd.

## 3. Sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o cig coch o Gymru ym Mhrydain

Y duedd hirdymor yw bod llai o gig oen, cig eidion a phorc yn cael eu defnyddio yn y DG.

Am fod teuluoedd yn mynd yn llai ac am fod angen prydau cyflym a hawdd, mae mwy o alw am ddarnau cig bach yn hytrach na darnau mawr i'w rhostio.

Mae pris yn dal i chwarae rhan allweddol ac mae'r gystadleuaeth o gig ffowlyn, pysgod a phroteinau nad ydynt yn gig yn dal i gynyddu.

Mae'r ffactorau cymdeithasol a gwleidyddol ehangach yn dylanwadu ar batrymau prynu a pholisïau mân-werthu; mae'r rhain yn cynnwys pwysau gwleidyddol o blaid nwyddau a gynhyrchir gartref, yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei feddwl am rinweddau iachusol cig coch o fewn eu diet, a thrafodaeth ynghylch effaith cynhyrchu da byw ar yr amgylchedd.

Mae'r farchnad fewnwladol yn dal i gyfrif am 60 y cant o werthiannau cig coch Cymru ac mae cyfuno'r farchnad ym Mhrydain yn hanfodol er mwyn cynnal gwerthiannau Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru.

Hefyd, bydd creu cydlyniad a chydweithrediad o fewn y gadwyn gyflenwi yn hanfodol er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o gig coch o Gymru yng ngwledydd Prydain.

Bydd HCC yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu a gwella'r farchnad fewnwladol ar gyfer cig coch o Gymru trwy:

- Hyrwyddo cig coch Cymru fel cynnyrch premiwm.
- Addysgu defnyddwyr ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol eraill (gan gynnwys ysgolion a gweithwyr iechyd).
- Nodi ac asesu cyfleoedd i ddatblygu cynhyrchion newydd (yn enwedig mewn perthynas â chig oen).
- Cydweithio'n agos â sectorau manwerth, gwasanaethau bwyd a lletygarwch i hybu gwerthiant yn y farchnad fewnwladol.

## 4. Chwilio am ddefnyddwyr newydd ar gyfer cig coch Cymru yn fyd-eang mewn marchnadoedd sy'n bodoli

Rhaid parhau i ddatblygu cynhyrchion newydd ar gyfer defnyddwyr y mae eu gofynion yn newid ac ar gyfer cenhedlaeth wahanol o ddefnyddwyr.

Mae angen carfanu marchnata o fewn y sector hwylustod bwyd er mwyn targedu marchnadoedd allweddol, gan gynnwys marchnadoedd ethnig, a chynnig cynhyrchion at ofynion unigol.

Bydd HCC yn gwneud brandiau cig coch Cymru yn fwy amlwg ac yn gwella'r canfyddiad ohonynt ymhlith defnyddwyr targed mewn marchnadoedd sefydledig a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg, Hefyd, defnyddir data am ddefnyddwyr i nodi a thargedu carfannau newydd o'r boblogaeth fel bod y diwydiant mewn sefyllfa dda i'w cyflenwi â chig coch Cymru premiwm.

## 5. Sicrhau cyfleon marchnad i gig coch o Gymru y tu allan i'r UE

Mae yna alw cynyddol eisoes o dramor am ddarnau o gig yn hytrach na charcasau. Bydd y gallu i ateb y galw hwn a throi allforion carcasau i allforion toriadau wedi'u brandio mewn amrywiaeth eang o farchnadoedd rhyngwladol hefyd yn helpu i leihau effaith yr amrywiadau mewn arian cyfredol.

Mae yna alw cynyddol eisoes o dramor am ddarnau o gig yn hytrach na charcasau. Bydd y gallu i ateb y galw hwn a throi allforion carcasau i allforion toriadau wedi'u brandio mewn amrywiaeth eang o farchnadoedd rhyngwladol hefyd yn helpu i leihau effaith yr amrywiadau mewn arian cyfredol.

Nid yw llawer o'r cyrchfannau targed ar gyfer cig coch Cymru ar gael ar hyn o bryd ar gyfer masnachu â'r DG. Mae trafodaethau i sicrhau mynediad i'r marchnadoedd yn hir a chymhleth ac nid ydynt o dan reolaeth uniongyrchol HCC.

Mae'n debygol y bydd y manteision a'r enillion gorau i ddiwydiant cig coch Cymru yn deillio o dargedu marchnadoedd premiwm gwerth-uchel ar gyfer toriadau wedi eu brandio. Bydd cydnabod y galw am ddarnau cig ac offal gwerth-isel mewn marchnadoedd tramor allweddol yn cynnig mwy o gyfle am enillion ariannol nag a geir mewn marchnadoedd mewnwladol.




Mae mynediad uniongyrchol i Tsieina yn flaenoriaeth uchel, ynghyd â mynediad i farchnadoedd eraill yn Asia ac Affrica, y Dwyrain Canol a gwledydd eraill sy'n dod i'r amlwg o ran eu heconomi ac a allai fewnforio cynhyrchion cig defaid a phumed chwarter, yn amodol ar gytuno ar fynediad i'r farchnad.

Bydd HCC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DG, AHDB a Quality Meat Scotland i greu rhwydweithiau, gwneud y defnydd gorau o ddata'r farchnad a, thrwy UKECP, cefnogi a hybu trafodaethau ynghylch mynediad i farchnadoedd newydd.



## 6. Hybu cystadleurwydd diwydiant cig coch Cymru

Mae masnachu yn y marchnadoedd allforio a mewnwladol (Prydain) yn dibynnu ar allu'r sector i asesu ac ymateb i negesau o'r farchnad ac i fod yn ddigon cystadleuol i sicrhau cyflenwad o gig coch o ansawdd. Mae hyn yn ymofyn i'r gadwyn gyflenwi cig coch gyfan i:

- Cynnal cysondeb yn y cynnyrch a sicrhau'r ansawdd bwyta gorau
- Cadw'r cyfleusterau i brosesu cig coch yng Nghymru a gwella cyfleoedd i ychwanegu gwerth trwy brosesu ychwanegol
- Estyn oes silff Cig Oen Cymru
- Gwneud cynhyrchu cig coch yn fwy proffidiol a chadarn trwy wella effeithlonrwydd ar y fferm (gan gynnwys iechyd anifeiliaid, geneteg, rheoli tir glas, manteisio ar dechnoleg a lleihau costau).

Bydd HCC yn casglu, asesu a lledaenu gwybodaeth am y farchnad a'r defnyddwyr i'r diwydiant er mwyn galluogi'r sector i ymateb i newid. Bydd yn buddsoddi mewn ymchwil ac arloesedd er mwyn galluogi'r sector cig coch i gael mynediad at dechnoleg newydd sydd yn berthnasol i ffermio a phrosesu yng Nghymru. Bydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid y diwydiant (gan gynnwys cynhyrchwyr a phroseswyr), Llywodraeth Cymru a darparwyr presennol i ddarparu cymorth perthnasol sydd wedi'i dargedu a chreu'r cyfleoedd gorau posibl i gael diwydiant cig coch cystadleuol.

## 7. Cefnogi economi, amgylchedd naturiol a'r gymdeithas trwy gynhyrchiant a phrosesu cig coch cynaliadwy yng Nghymru

Mae HCC yn cydnabod difrifoldeb a natur brys her cynaliadwyedd. Mae'n her sy'n fyd-eang ac yn cwmpasu newid hinsawdd, diogelwch bwyd, cyfiawnder cymdeithasol, defnydd tir a diraddio'r pridd. Credwn yn angerddol fod bwyd ac amaeth yng Nghymru eisoes yn gwneud cyfraniad gwerthfawr, a gall wneud mwy yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Wedi ei gyhoeddi yn Rhagfyr 2020, mae'r 'Ffordd Gymreig' yn edrych ar lle mae Cymru'n sefyll yng nghyd-destun cynaliadwyedd a diogelwch bwyd byd-eang ac yn rhoi



achos ger bron o sut y gall sector cig coch Cymru wneud gwahaniaeth cadarnhaol i gyflawni amcanion y genedl.

Bydd HCC yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol a Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chefnogi mentrau i gynhyrchu cig coch cynaliadwy o safon uchel sy'n uchel ei barch mewn marchnadoedd ar draws y byd; gan roi mantais gystadleuol i gynhyrchiant cig coch yng Nghymru.

## 8. Cynllunio o ran masnachu yn y dyfodol, cynhyrchu a phrosesu trwy sganio'r gorwel ac ymchwil y farchnad."

Mae Bwrdd HCC yn ystyried cynllunio wrth gefn yn hanfodol i warchod ei nodau hirdymor o ystyried yr heriau a'r ansicrwydd sy'n wynebu'r diwydiant

Mae cynllunio wrth gefn yn cynnwys sut y gall mwy o gynnyrch gael ei ddefnyddio mewn marchnadoedd gartref a thramor, sut i hybu a gwella datblygiad cynhyrchion newydd a sut i gyrraedd gwell cydbwysedd rhwng cyflenwi a galw."

Gallai'r rhain ddangos:

- Sut y gellid defnyddio mwy o gynnyrch yn y farchnad gartref
- Sut y gellid cyflymu neu wella datblygiad cynhyrchion newydd - gan gynnwys potensial ar gyfer sgil-gynhyrchion nad ydynt yn fwyd (e.e. croen a chrwyn)
- Ffyrdd o gynorthwyo i gael cig yn lle cig coch wedi'i fewnforio
- Sut y gellid cael gwell cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw - gan gynnwys dulliau gweithredu, ymyriadau a thechnolegau a allai helpu i leihau effaith y cyflenwad tymhorol iawn. Bydd hyn yn cynnwys cymorth i'r diwydiant i weld pa gymysgedd o ddewisiadau y gallai ffermwyr ei ystyried (er enghraifft, cadw llai o ddefaid a mwy o wartheg) yn ogystal ag opsiynau prosesu.

Bydd HCC yn gweithredu cynllunio wrth gefn, casglu gwybodaeth am y farchnad a sicrhau fod gwybodaeth am ddatblygiadau yn ymwneud â chig coch o Gymru yn cael ei gyfathrebu i randdeiliaid a defnyddwyr.

### 9. Dangos arweiniad effeithiol a chyfathrebu er mwyn sicrhau undod pwrpas ac eiriolaeth effeithiol

Er mwyn bodloni anghenion y diwydiant a chyflawni Gweledigaeth Bwrdd HCC, bydd angen i HCC ryngweithio â Llywodraethau Cymru a'r DG, asiantaethau cyhoeddus a chyrff y diwydiant er mwyn rhannu gwybodaeth a dylanwadu ar bolisïau a rheoleiddio lle bo modd. Hefyd, rhaid i HCC hefyd godi ymwybyddiaeth o waith y sefydliad a chynnal hyder ei dalwyr ardoll.

Bydd HCC yn arddangos arweiniad clir, penderfynol, pendant a chadarnhaol i'r diwydiant cig coch yng Nghymru a gosod mesurau mewn lle i helpu codi hyder a gwybodaeth ymhlith y diwydiant.






# Gweithredu

Yn y pen draw, bydd gweithredu'r blaenoriaethau a amlinellir yn y ddogfen hon yn cael ei bennu gan nifer o ffactorau. Bydd faint o arian sydd ar gael trwy Ardoll Cig Coch Cymru, newidiadau yn niferoedd y da byw ac argaeledd cronfeydd atodol ychwanegol i gefnogi a gwella'r gweithgareddau hyn i gyd yn effeithio ar y gweithredu.

Mae HCC y cyhoeddi Cynllun Corfforaethol treigl (sy'n parhau am dymor y Llywodraeth) yn flynyddol, sydd yn amlinellu'n fanwl sut y caiff y strategaeth hon ei gweithredu.

Casgliad: Bydd HCC yn gweithio'n agos iawn gyda holl randdeiliaid y diwydiant, Llywodraeth Cymru a chyrff ardoll Prydain i sicrhau bod arian Ardoll Cig Coch Cymru yn cael ei dargedu mewn ffyrdd a fydd o'r budd a'r gwerth mwyaf i'r sector cig coch. Bydd HCC hefyd yn chwilio am gyllid arall lle bo modd, er mwyn ychwanegu at y cronfeydd ardoll.



